Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru
Ystafell 105, Technium Digidol, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe. SA2 8PP
Cydlynydd Ardal Ffôn: 01792 602793, Gweinyddydd Ffôn: 01792 606609
E-bost: adminwales@furthermaths.org.uk

DATGANIAD YN Y CYFRYNGAU I YSGOLION A CHOLEGAU

Awst 2013

Cynnydd pellach yn y niferoedd sy'n sefyll Lefel A mewn Mathemateg Bellach yng Nghymru

Mae rheswm i ddathlu eto eleni yng Nghymru yn sgîl y canlyniadau lefel A Mathemateg Bellach. Mae'r canlyniadau Mathemateg a Mathemateg Bellach fel ei gilydd wedi adeiladu ar y cynnydd a welwyd yn y niferoedd y llynedd, gyda chynnydd pellach:

- Mae niferoedd lefel A Mathemateg Bellach wedi codi o 380 i 416, cynnydd o 9.4%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg Bellach wedi codi o 339 i 369, cynnydd o 8.8%.
- Mae niferoedd lefel A Mathemateg wedi codi o 3643 i 3713, cynnydd o 1.9%.
- Mae niferoedd AS Mathemateg wedi codi o 4647 i 4796, cynnydd o 5.4%.

Cododd cyfran y myfyrwyr Mathemateg a safodd lefel A Mathemateg Bellach i 11.2%, sef y canlyniad uchaf erioed ar gyfer Mathemateg Bellach yng Nghymru. Ers lansio'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach yng Nghymru yn 2010, mae'r ganran wedi codi'n gyson bob blwyddyn, fel y dengys y graff isod. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio Mathemateg Bellach yng Nghymru wedi codi mwy na 70%.

Graff 1. Canrannau'r myfyrwyr Mathemateg Lefel A a safodd Lefel A Mathemateg Bellach yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ers 2003
(http://www.jcq.org.uk/examination-results/a-levels)



Mae astudio Mathemateg Bellach yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd â dawn fathemategol adeiladu sylfaen gadarnhach, gan eu helpu i gyflawni eu potensial yn eu haddysg ddiweddarach, ac mae hynny'n arwain yn aml at yrfaoedd mewn gwyddoniaeth, technoleg, economeg, gwyddoniaeth actwaraidd a chyllid. Amlygodd Grŵp Prifysgolion Russell bwysigrwydd Lefel AS/A Mathemateg Bellach ar gyfer llawer o gyrsiau prifysgol yn eu canllaw i ddewis pynciau ôl-16 http://russellgroup.org/InformedChoices-latest.pdf

The FMSP Wales Is managed by Rheolir FMSP Cymru gan
www.wimcs.ac.uk
in partnership with mewn partneriaeth â
Innovators in Mathematics Education
funded by ac fe'i hariannir gan
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cychwynnodd peilot Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach (FMSP) Cymru ym mis Hydref 2010, gan gwmpasu Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Benfro. O fis Ebrill 2013 cynhwyswyd Rhondda Cynon Taf, Ynys Môn a rhannau eraill o Ogledd Cymru yn y prosiect yn ogystal.
Mae'r Rhaglen yn cynnig tiwtora a mynediad at adnoddau ar-lein i gynnal y broses o addysgu Mathemateg Bellach. Un o elfennau allweddol y Rhaglen yw amrywiaeth o ddigwyddiadau adolygu ac astudio a gynhelir wyneb yn wyneb ac ar-lein. Byddai 97% o'r myfyrwyr a aeth i sesiynau Adolygu Pur a Chymwysedig Pellach wyneb yn wyneb yn 2012/13 yn eu hargymell i fyfyrwyr eraill. Ymhlith sylwadau'r myfyrwyr roedd: "Help mawr i bob myfyriwr", "Amgylchedd difyr", "…defnyddiol iawn ar gyfer adolygu a hyd yn oed ar gyfer dysgu pethau newydd", "Paratoad ardderchog".

Cefnogir y Rhaglen gan yr adrannau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) mewn prifysgolion yng Nghymru a Lloegr
http://www.furthermaths.org.uk/universities.php.

Gwahoddir yr holl ysgolion uwchradd a cholegau a ariannir gan y wladwriaeth yng Nghymru i gofrestru gyda'r Rhaglen http://www.furthermaths.org.uk/Eregister.php a mynegi eu diddordeb mewn cymorth tiwtora trwy gysylltu â Chydlynydd y Rhaglen, Sofya Lyakhova, drwy ffonio 01792 602793.

Nodiadau i Olygyddion

1. Rheolir FMSP Cymru gan Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS), mewn partneriaeth â Mathemateg mewn Addysg a Diwydiant (MEI, www.mei.org.uk). Caiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

2. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch rhaglen gymorth Mathemateg Bellach Cymru ar gael yn:
   http://www.furthermaths.org.uk/centre/?centre=wales

3. Partneriaeth gydweithredol yw Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru (WIMCS) rhwng prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nod WIMCS yw gwella statws mathemateg a chyfrifiadura yng Nghymru, meithrin cysylltiadau â diwydiant, masnach a busnes, cynhyrchu cyllid ymchwil sylweddol a darparu fforwm ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Gwyddorau Mathemategol (www.wimcs.ac.uk).

4. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Gweinyddydd FMSP Cymru drwy ffonio 01792 606609 neu e-bostio adminwales@furthermaths.org.uk